

# Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 149

Rhif 23

Mehefin 2, 2016

50c.

## Tri Gweinidog i Iesu Grist

*Roedd dydd Sadwrn Mai 14eg yn un arbennig iawn gan fod tri gweinidog, sef Glenys Jones, Jill Hayley Harris a Gwyn Elfyn Lloyd Jones, wedi eu sefydlu mewn tair eglwys wahanol, un yn y gogledd a dwy yn y de. Yn y rhifyn hwn o'r Tyst, i ddatlu'r digwyddiadau hynny fe roddwn hanes y tri chyfarfod sefydlu gan longyfarch yr eglwysi a dymuno yn dda i'r tri ohonynt yn eu gwaith.*

### Sefydlu Bugail yn Soar

Ar Sadwrn heulog ym Mis Mai, cefais y profiad llawen o fod yn bresennol yn oedfa groesawu a sefydlu'r Parchedig Glenys Jones yn Weinidog ar Soar, Nefyn. Roedd cynulleidfa pob oed yno yn y Capel, yn dystion cadarn i addewidion y gweinidog newydd, ac yn dyrfa lawen o amgylch y byrddau llwythog o ddanteithion yn y Ganolfan wedi'r oedfa.



oedd cael cwmni ei weddw, Mrs Mair Gibbard, yn yr oedfa, diacon ffyddlon a gweithgar ym Mhenlan Pwllheli.

#### 'Croeso i'r tîm!'

Nododd Llywydd y prynhawn, Mr Trefor Jones, Chwilog, Cadeirydd Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd, ein bod mewn gwasanaeth i groesawu Glenys yn ogystal â'i sefydlu. Mewn ffordd o siarad, roedd hi'n groeso nôl, gan ei bod yn gyfarwydd â'r eglwys ers blynyddoedd. Pwysleisiodd mai cael ei chroesawu i'r tîm oedd hi yn Soar, gan fod yno aelodau brwdfrydig a gwerthfawr eisoes ar waith o fewn yr eglwys. Braff oedd cael rhai o aelodau'r tîm hwnnw, yn ddiagoniaid ac aelodau yn cyfoethogi'r oedfa drwy ddarllen o'r Beibl a chyflwyno emynau.

#### 'Gadewch i'r plant bach ddod ataf fi..'

Mae'r Ysgol Sul yn nodwedd bwysig o fywyd Soar a gwasanaeth pob oed yn rhan bellach o batrwm pob mis. Hyfryd felly oedd cael cwmni'r plant a'u cyfraniad o gân i'r oedfa. 'Ffrindiau' oedd testun y gân ac roedd hi'n amlwg mai buan iawn y byddai ffrindiau ifanc i Iesu Grist yn Soar yn dod yn ffrindiau newydd i'r Gweinidog hefyd.

#### Gwerth y Weinidogaeth

Mae pwyslais da'r dyddiau hyn ar hyderu a galluogi llyegwyr i ymgymryd â llawer o gyfrifoldebau yn ein heglwysi. Ond wrth longyfarch Soar ar ei gweinidog newydd, atgoffodd y Parchg Euros Wyn Jones ni mor werthfawr o hyd y dyddiau yma yw'r weinidogaeth ordeiniedig. Mynegwyd gwerthfawrogiad o gyfraniad gweinidogion yn Soar yn y gorffennol, yn enwedig y diweddar Barchedig Hedley Gibbard. Braff

#### Meddwl Crist

Yn ei anerchiad, aeth y Parchedig Euros Wyn Jones â ni yn ôl at gwestiwn sylfaenol - beth yw ein pwrpas ni fel Eglwys Iesu Grist? "Holl ddiben yr eglwys yw ffurfio meddwl Crist ymhlith yr aelodau gan eu hannog i'w garu Ef, ei adnabod a'i gofleidio gan fyw bob dydd dan Ei arglwyddiaeth." Anogodd yr aelodau i ddod yn gyson i gyfarfodydd yr eglwys i fod dan weinidogaeth Glenys a gweinidogaeth Gair Duw er mwyn darganfod gyda'i gilydd beth yw meddwl Crist.

#### Galluogi

Atgoffodd Euros ni fod Glenys yn Soar i helpu'r aelodau i gyflawni eu galwad yn well i fod yn weinidogion ac yn offeiriaid i Grist yn eu bywydau pob dydd. Dechreuodd Glenys ei hun fel aelod ffyddlon ym Mhenlan, Pwllheli, yna ei chodi'n ddiagon ac wedyn Arweinydd Eglwys cyn cael ei hordeinio'n Weinidog yno yn 2014. Dyma brofi sut mae mentro un cam bach ymlaen gyda'r Arglwydd gyda chefnogaeth yr eglwys yn medru arwain i bethau mawr. Yn ein hoes ni, nid mater o leygwyr a phobl wedi eu hordeinio yn cystadlu i brofi pa un yw'r pwysicaf yw hi, ond partneriaeth greadigol rhwng y ddau yng ngwasanaeth yr Eglwys, gyda phawb yn cynnig eu doniau i'r Arglwydd ac i'w gilydd er tyfiant Eglwys Iesu Grist a lledaenai Ei Deyrnas.

Dymunwn fendith Duw ar y Parchg Glenys Jones, aelodau Soar Nefyn a Phenlan, Pwllheli ar ddechrau pennod newydd yn eu hanes fel Gweinidog a Gofalaeth wrth iddyn nhw barhau'r dystiolaeth ddisglair i Iesu Grist ym Mhen Llŷn.

Casi Jones

*mwy ar y dudalen gefn a thudalen 2*

## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Yn dilyn gwahodd enwebiadau oddi wrth y Cyfundebau am ddarpar-Lywydd a Thrysorydd i'r Undeb, cyhoeddwn mai'r enwau canlynol sydd i'w cyflwyno i Gynhadledd yr Undeb yn Llanuwchllyn ar ddydd Iau, 30 Mehefin 2016.

#### Darpar-Lywydd

**Y Parchg Jill-Hailey Harries**  
Abertawe

#### Trysorydd

**Miss Meryl James**  
Hendy Gwyn



# Tri Gweinidog i Iesu Grist

## Alaw yn canu'n y cof

### Sefydlu yn y Tabernacl a Bethania Treforys

Cynhaliwyd cyfarfod sefydlu'r Parchg Jill-Hayley Harris yn y Tabernacl, Treforys am 2 o'r gloch ar ddydd Sadwrn 14eg o Fai, ym mhresenoldeb cynulleidfa sylweddol iawn. Roedd Jill eisoes yn weinidog ar un ofalaeth yn cynnwys Bethel, Sgeti a Trinity, Sgeti ac yn awr y mae wedi'i sefydlu yn weinidog ar y Tabernacl a Bethania, Treforys.



Hyfryd oedd croesawu teulu Jill o Landysilio, a llu o ffrindiau o gapeli pell ac agos. Yr oedd acenion y gwahanol siroedd o'n cwmpas ynghanol Treforys yn ychwanegu at gyfoeth y profiad o fod yno, lle'r oedd uno â'n gilydd yn rhan bwysig o'r cyfarfod. Llywyddwyd y cyfarfod gan

y Parchg Ieuan Davies, cyn-weindog y Tabernacl a Bethania ac un a fu yn weinidog ar Jill pan oedd yn ifanc iawn yn Llandysilio.

#### Defosiwn a Hanes yr Alwad

Darllenwyd o Effesiaid 4 gan y Parchg Dyfrig Rees, adran o'r Beibl sy'n sôn am y rhwymyn tangnefedd a'r undod y mae'r Ysbryd yn ei roi. Dyma oedd thema'r cyfarfod ac mor briodol oedd y cyfan pan gofiwn mai uno 4 eglwys a wnaethpwyd a hynny'n gyd-enwadol. Gweddwyd yn yr oedfa gan ddau o gyfeillion Jill - sef y Parchg Jeff Williams a'r Parchg Derwyn Morris Jones (a fu hefyd yn allweddol yn cyd-weithio â'r diweddar Dr John Davies i lywio cyfarfodydd y pwyllgor bugeilio.) Yn anorffod gan fod 4 eglwys yn uno a'r rheiny'n cynnwys dau enwad, yr oedd y cyfraniadau'n niferus. Cafwyd hanes yr alwad gan David Gwyn John, a gyfeiriodd yn arbennig at y diweddar Dr John Davies, yr oedd ei arweiniad yn y trafodaethau cynnar yn amhrisiadwy, ei groeso, ei amynedd a'i barodrwydd i gadw 'drws agored' i bob trafodaeth yn greiddiol i'n hesblygiad yn ofalaeth newydd. Cafwyd cyfarchion gan Dr. Ceri Davies, Robot

Powell, a'r Parchg Anthony Williams, a chroesawyd gan Ann Rosser, Huw Phillips a'r Parchg Eirian Wyn.

#### Traddodiad Cerddorol

Gallwn barhau i ymfalchïo yn ein traddodiad cerddorol yn Nhreforys wedi'r oedfa hon. Yr oedd y canu (a'r cyfeilio gan Gareth Sims) yn hwyliog dros ben, a'r dôn' Blaenwern' gan W. Penfro Rowlands (a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer oedfa gymun yn y Tabernacl) yn codi'r to. Cafwyd dau ddatganiad cerddorol - un gan ieuencid y Tabernacl ar ' Dros Gymru'n gwlad' (Lewis Valentine) a'r llall gan Huw Tregelles Williams ar yr organ, sef 'Nun Danket alle Gott (Rhodddwn glod i Dduw, trefniant Karg Elert.) Mae seiniau'r organ a chanu'r bobl ifanc y diwrnod hwnnw gyda ni o hyd :

"Mae alaw pan ddistawo  
Yn mynnu canu'n y co"

#### Pregeth Rymus

Felly hefyd bregeth rymus y Parchg Ddr. Noel Davies. Pregethodd ar Effesiaid 4, 1. Yma mae Paul o'i garchar yn annog ei gyd-Gristnogion 'i fyw yn deilwng o'r alwad.' Fe'n hatgoffwyd mai undod Duw yw gwreiddyn ein galwad, rhoddion yr Ysbryd yw grym ein galwad a chyfiawnder Crist yw gobaieth a nod ein galwad. Ond yna tynnwyd ein sylw at y ffaith fod Paul ynghanol yr ymdriniaeth hon, yn dathlu'r Crist a esgynnodd ac a ddisgynnodd. Esgynnodd i lenwi'r greadigaeth gyfan ag egni a grym ei gariad hollorchfygol ac i 'ddwyn caethiwd yn gaeth', sef yn y diwedd, i ddinistrio pob grym sy'n gorthrymu'r ddynolryw o hyd. Disgynnodd i roi i'w ddisgyblion ar hyd y canrifoedd roddion hael a chwyldroadol ei Ysbryd. Yr alwad hon a'r addewid hon fyddai hyder a grym y weinidogaeth newydd a oedd yn cychwyn gyda'r oedfa sefydlu hon.

Ann Rosser



## Dydd Gweddi'r Chwiorydd

Cynhaliwyd cyfarfod o Ddydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd (Rhyng-enwadol) yn Ffestri Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth ddydd Mercher 11eg Mai, 2016. Yn cynrychioli Undeb yr Annibynwyr yn y cyfarfod roedd y Parchedigion Beti Wyn James a Carys Ann. Yn dilyn gweddi gan y Llywydd Sandra Storch, croesawyd pawb i'r cyfarfod. Daeth cynrychiolaeth dda o'r holl Enwadau Cymraeg. Gyda ni hefyd yn y cyfarfod arbennig hwn oedd Margaret Pickford, Kathleen Skinner a Mary Judd, cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Cenedlaethol, Lloegr.

Wedi amser o esboniad am waith, cyfrifoldebau a'r gefnogaeth gan y Pwyllgor Cenedlaethol ac amser am gwestiynau, ffarweliwyd a'n cyfeillion o Loegr gyda diolchgarwch diffuant iddynt am eu presenoldeb.

Trosglwyddwyd mantell y Llywyddiaeth o ddwylo Sandra Storch i'r Llywydd Newydd Mary Thomas. Wedi cyflawni holl

waith ar yr Agenda fe'n hanogwyd i fynychu'r Cynadleddau Undydd fydd yn y Gogledd ddydd Mercher 9fed Tachwedd, yng Nghanolfan Ebenezer, Caernarfon (10 hyd 3 o'r gloch) ac yn y De ar ddydd Mercher 30ain Tachwedd, Capel Heol Awst, Caerfyrddin (10 - 1 o'r gloch)

Carys Ann



# Barn Annibynnol

## Newydd Wedd

Yn sicr byddai gan Jwdas Iscariot ryweth i'w ddweud am adnewyddu adeiladau eglwysig! Wrth feddwl am adeiladau eglwysig yn aml mae'n anodd meddwl yn ymarferol. Dydd Sul diwethaf roeddwn mewn oedfa i ddathlu ail agor capel (*Tabernacl, Efailisaf*) ar ei newydd wedd (muriau, paent, ffenestri, seddi, gwresogydd newydd ac ati). Yn ystod yr oedfa rhoddwyd braslun yn nodi'r hyn a wnaed dros y ddeugain mlynedd diwethaf. Wow!



Eirian Rees

festri.... agor ffordd i'r selar am fod y festri'n rhy fach.

Wedyn, ymhen blwyddyn neu ddwy ychwanegwyd ystafell at y festri; cliriwyd y fynwent a chreu gardd goffa ynghyd â phrynu organ newydd. Y festri gafodd y sylw bob tro am mai dyna'r lle oedd mwyaf defnyddiol. Ymhen tipyn o amser wedyn paentiwyd y capel. Y syndod yw nad oedd neb wedi cyfrif y gost. Doedd y cwestiwn ddim wedi codi. Cwrdd ag angen yn gwasgu oedd hi bob tro. Cafwyd wedyn bron i ugain mlynedd o lonydd cymharol a chyfnod o sefydlogi bywyd y gymuned eglwysig oedd yn tyfu.

### Ailgydio

Darfu'r llynydd yn 2010 - ail adeiladwyd y festri'n llwyr i fod yn ganolfan fodern ac yn 2015 bwriwyd ati i wneud gwaith helaeth ar y capel a dyna'r rheswm am yr oedfa i ddathlu. Nawr mae'r capel a'r festri a newydd yn eu lle - piano (grand), organ newydd arall a theclynnau cyfathrebu electronig. I beth? Sut mae ateb y cwestiwn? Yn syml, doedd dim

dewis - cynnal neu fwlodser oedd yr opsiwn oherwydd does gan yr un gynulleidfa hawl i adael adfail hyll i anharddu bro. Annigonol fyddai gwario ar gynnal amgueddfa i ddiwylliant crefyddol cyfnod neu greirfa i Anghydfurfiaeth. Unwaith eto cwyd y cwestiwn - i beth?

### Paham?

Nid oes ateb ond i blannu daioni Cristnogol er mwyn i weithredoedd cariad allu egino i ychwanegu gwerth i fywydau, lle i gwmnïa, i ddatblygu personoliaethau ac i fod yn gymorth i fagu teuluoedd dedwydd a bywyd cymunedol cryf. Mae hyn i gyd yn hawlio fod yr adeiladau'n ddefnyddiol, heblaw hynny, bwlodser amdani.

Eirian Rees

O.N. A oes lle i gynnal sgwrs (seiat) yn *Y Tyst* am sut mae sicrhau fod ein hadeiladau o les? Y mae syniadau da bob amser yn werthfawr.

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

### Newidiadau

Yn gyntaf, agor y festri oedd wedi bod ar gau am dros ugain mlynedd, a hynny er mwyn gallu ehangu'r ysgol Sul ac i gynnal clwb ieuenctid.... creu llwybr diogel i'r

## Not in God's Name

Ambell waith pan gydiwn mewn llyfr rydym yn gwybod yn syth ei fod yn un pwysig. Llyfr felly yw hwn gan Jonathan Sacks, *Not in God's Name, Confronting Religious violence*. (Llundain, Hodder & Stoughton, 2015. £20 clawr caled neu £6.95 mewn clawr papur o Amazon ar ôl Mai 19). Fel mae'r is deit yn dangos y mae yn ymwneud ag un o destunau mwyaf llosg y dydd.



Rabbi Jonathan Sacks

sefyll nid gyda'r grymus (Pharo) ond gyda'r gwan (caethweision Israel). Ymhellach ymlaen mewn hanes rhoddodd y Duw hwn weledigaeth inni o fyd lle'r oedd cleddyfau yn cael eu troi yn sychau a'u gwaywffyn yn bladuriaid 'ac ni ddysgant ryfel mwyach'.

### Nhw

Ond tra bydd pobl yn uno mewn grŵp a rhannu'r byd rhwng y rhai sy'n perthyn i'n grŵp ni a'r rhai sydd ddim, daw'r syniad i fodolaeth o 'ni a nhw'; a'r 'ni' yn gorfod amddiffyn ein hunain byth a beunydd rhag y 'nhw'. Y 'nhw' sydd ar fai bob tro. Y mae hyn yn arwain at ddsiynau - sy'n aml yn troi yn drais. Dengys yr awdur mor angenrheidiol yw'r broses o ddad-dyneiddo'r llall a'i ddemoneiddio er mwyn cyfiawnhau gweithredu yn greulon a lladd yn ddidrugaredd. Wedi'r cyfan maent yn siŵr eu bod yn gwneud ewyllys Duw!

### Gwrthdaro

Byrdwn ei neges yw dadansoddiad o'r hyn mae'n ei alw yn *sibling rivalry*, ymgiprys rhwng brodyr. Y mae hyn yn codi oherwydd bod un am gael yr hyn sydd gan y llall, neu fod yn lle'r llall. Y mae yn edrych ar y brodyr yn llyfr Genesis: Ishmael ac Isaac, Jacob ac Esau, a Joseff a'i frodyr. Y mae yn cysylltu'r ymgiprys hwn â'r ymgiprys rhwng y tair crefydd sy'n tarddu o Abraham: Iddewiaeth, Cristnogaeth ac Islam. Iddewiaeth a Christnogaeth drwy Isaac, wrth gwrs, ac Islam drwy Ishmael. Fel yr oedd y brodyr yn llyfr Genesis yn ceisio bod yn ffefryn eu tad, neu yn teimlo eu bod nhw'n colli mas yn rhyw ffordd, felly hefyd y mae'r tair crefydd hanesyddol hyn wedi ceisio bod ar y blaen. Un o broblemau mawr y pwnc yw: pam bod rhaid i Dduw ddewis rhwng y naill a'r llall. Drwy fynd dros hanesion brodyr Genesis am yr eil dro y mae'r awdur yn dangos drwy gyfeirio at ddysgeidiaeth y tadau a'r Talmwd a'r Mishna na fu i'r tad ddewis un a gwrthod y llall mewn gwirionedd. Y mae'n dadlau am bwysigrwydd

cael y tair crefydd hefyd i sylweddoli hynny ac i gyd fyw, a rhoi'r gorau i ddrwgdybiaeth, a pharchu ei gilydd yn wir.

### Dehongli mewn cariad

Y mae Sacks yn cyfeirio at y ffaith fod gan y crefyddau hanesyddol eu testunau anodd (*Hard Texts*). Y mae'n dadlau ei bod yn anorfod fod pob testun o'r fath yn cael ei ddehongli'n iawn. Y mae'r fath ddehongliad yn galw am ddoethineb. Y mae ffundamentalwyr yn darllen y testun fel petai Duw mor syml â ni, meddai. '*That is unlikely to be true*', yw ei ddyfarniad. Y mae angen dehongli testunau anodd neu maent yn troi yn drais yw ei gasgliad wedyn, gan ddyfynnu Shakespeare bod y diafol yn dyfynnu'r ysgrythur i'w ddiben ei hun. Yn y gorffennol y tueddiad oedd i'r mudiadau radical ffundamentalaid hyn fod yn lleol ac yn gyfyngedig eu dylanwad; yn yr oes ddigidol hon maent yn cyrraedd pobl o bob cwr o'r byd mewn amser byr. '*Suddenly the radicals command the heights and address the masses, while the religious establishment is left flat-footed and out paced and looking old*. Rhaid i bob crefydd wrthod dehongliad llythrennol o'i thestunau celyd os nad yw am ddangos nad yw wedi dysgu dim o hanes. Y mae'r Gair, meddai, wedi ei roi mewn cariad, ac yn ein gwahodd i'w ddehongli mewn cariad.

### Cyrol Bwysig

Y mae'n gorffen drwy ddatgan, 'Heddiw y mae Duw yn ein galw ni oll, yr Iddew, y Cristion a'r Mwslim, i ollwng gafael ar gasineb ac ar bregethu casineb, a byw o'r diwedd fel brodyr a chwiorydd, yn deymgar i'n ffydd ac yn fendith i eraill beth bynnag yw'n ffydd, yn anrhydeddu enw Duw drwy anrhydeddu ei ddelw, sef y ddynolryw'. Y mae hwn yn llyfr cynhwysfawr, pwysig i'n dydd, yn dadlau ei achos yn drylwyr a gofalus. Y mae'n bleser imi ei gyflwyno i'ch sylw. Dyma un o lyfrau pwysicaf y ddegawd.

Gerwyn Jones

### Nid yn fy enw i

Ar ôl dyfynnu Blaise Pascal: 'Nid yw dynion yn gwneud drwg mor llwyr a llawen a phan fo nhw yn gwneud hynny o argyhoeddiad crefyddol', brawddeg gyntaf Sacks yw, '*When religion turns men into murderers, God weeps*'. Ychwanegodd, 'yn rhy aml yn hanes crefydd, y mae pobl wedi lladd yn enw Duw bywyd, ymladd rhyfeloedd yn enw Duw heddwch, casáu yn enw Duw cariad, ac ymarfer creulondeb yn enw Duw tostru. Pan fo hyn yn digwydd y mae Duw yn siarad ... Beth a ddywed bryd hynny yw: "*Nid yn fy enw i*".

### Gyda'r Gwan

Drygioni allgarol (*altruistic evil*) yw pennawd ei bennod gyntaf, lle mae'n dangos fel y bu i grefydd ddechrau fel grym i gadw'r *status quo* rhwng y brenin a'i daeog - gwisg barchus grym noeth oedd crefydd gyntefig, i gadw trefn. Yna, gydag Abraham daeth math arall o grefydd i fodolaeth i herio'r hen. Clywodd lais yn galw arno i fod yn wahanol - a mentrodd mewn ffydd i ddilyn y llais. Yna gyda Moses gwelwn Dduw Abraham yn

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**  
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWA SA7 0AJ**  
**Ffôn: 01792 795888**  
 E-bost: undeb@annibynwyr.org

### Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnele Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

## Tri Gweinidog i Iesu Grist

### Gwyn Eu Byd

### Sefydlu yn Eglwys Annibynnol Bethesda, y Tymbl

Ar brynhawn hynod o braf, cynnes a heulog fe ymgasglodd cynulleidfa luosog yng Nghapel Bethesda, y Tymbl i sefydlu'r Parchg Gwyn Elfyn Lloyd Jones yn weinidog arnom. Mae yn barod wedi cymryd dan ei ofal Capel Nasareth, Pontyates a hynny ar ôl bod yn arweinydd llwyddiannus a chael ei ordeinio fel Gweinidog i Iesu Grist yng Nghapel Seion, Drefach.



#### Cyfranwyr

Braf oedd gweld y cyn weinidog, sef y Parchg Emyr Gwyn Evans yn llywyddu'r cyfarfod a'i ragflaenydd, sef y Parchg Edward Griffiths hefyd yn cymryd rhan flaenllaw. Roedd cysylltiadau eraill agos Eglwys Bethesda hefyd yn cymryd rhan, megis y Parchg Meirion Sewell, un o blant yr Eglwys, yn ogystal â ffrindiau teuluol a gweinidogion a fu'n ddylanwad ar Gwyn Elfyn, sef y Parchedigion Ken Williams, Wilbur Lloyd Roberts ac R. Alun Evans roedd gweinidogion eraill yno i rannu cyfarchion swyddogol Undeb yr

Annibynwyr yn lleol ac yn genedlaethol, sef y Parchg Ryan Thomas a'r Parchg Ddr Geraint Tudur.

#### Hanes yr Alwad

Yn rhoi hanes yr alwad roedd y Br. Morlais Dyfnallt Owen, cyn-ysgrifennydd yr eglwys ac un a roddodd gyfraniad sylweddol i waith yr Arglwydd am dros 30 mlynedd. Ei gymwynas swyddogol olaf, cyn ymddeol o'r swydd, oedd sicrhau, gydag eraill, fod y Parchg Gwyn Elfyn yn dod atom fel gweinidog. Felly roedd yn addas iawn mai ef oedd yn rhoi hanes yr alwad cyn i'n gweinidog newydd ymateb. Roedd graen a manylder ar yr hanes, fel y gellid disgwyl ac fe gyfeiriodd yn greffus at y gair "gwyn" gan gofio mai Gwyn y cyn-weinidog a'r gweinidog newydd a bod y Cwrdd Sefydlu yn digwydd diwrnod cyn y Sulgwyn.

#### Ysbrydoledig

Er mai'r Urdd ei hun oedd uchafbwynt y Cwrdd rhaid sôn am gyfraniad arbennig y Parchg Ddr R. Alun Evans B.A., Ph.D., sef Llywydd presennol Undeb yr Annibynwyr.



Roedd ei bregeth yn gyfoes ac yn ysbrydoledig. Roedd yr oedfa yn un obeithiol iawn ac yn llawn hyder a bu hynny yn thema amlwg yn y bregeth. Nododd bod angen i bobl Dduw weithio hyd eithaf eu gallu gyda chymorth yr Ysbryd Glan dros yr Arglwydd Iesu Grist. Nodwyd enghreifftiau cyfoes o bobl gyffredin yn gwneud pethau anghyffredin wrth ddyfalbarhau dros gyfiawnder. Mae angen i ninnau weithio hyd eithaf ein gallu gan baratoi yn drylwyr, gofalu am ein gilydd i wneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd ein nod yn llawn hyder ffydd.

Ar ôl y cyfarfod yn y capel cafodd pawb gyfle i fwynhau cwmni ei gilydd a chymdeithasu dros bryd ysgafn a chwpanaid, yn arweinwyr y ffydd, yn aelodau, teulu bydol a theulu ysbrydol. Roedd yn ddiwrnod heulog braf a'r byd o'n cwmpas yn llawn arwyddion o'r gwanwyn. Gwir yw dweud fod y rheini ohonom a fu'n bresennol yn y Cyfarfod Sefydlu ym Methesda yn teimlo ias gwanwyn newydd yn ein plith ac edrychwn ymlaen yn hyderus ac yn llawn ffydd i'r dyfodol fel Eglwys.

**Elen Davies**

### Ysgol Haf Gweinidogion yr Annibynwyr Cymraeg

Llun, Mehefin 20fed –  
 Mercher, Mehefin 22ain

Canolfan Halliwell, CPC y Drindod  
 Dewi Sant, Caerfyrddin

#### Thema: Blwyddyn y Beibl Byw

Ymgynnull am 4.00 y prynhawn ar y Llun  
 Llety a bwyd yn rhad ac am  
 ddim i Weinidogion

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd Guto Prys ap  
 Gwynfor naill ai drwy e-bost -  
 gagpwyntfor@gmail.com neu drwy lythyr os  
 gwelwch yn dda -

Yr Hafod, Stryd y Ffynnon, Llandysul,  
 Ceredigion SA44 4LA

Ni fydd ar gael i ateb y ffôn tan Fehefin 6ed



*Parchgn Dr Geraint Tudur, Ken Williams, Ryan Thomas, Wilbur Lloyd Roberts, Meirion Sewell, Gwyn Elfyn Jones, Emyr Gwyn Evans, Edward Griffiths, Mr Morlais D. Owen, a'r Parchg Ddr R. Alun Evans.*